# Pobl a Gwaith adroddiad blynyddol 2022

# Cyflwyniad gan Gadeirydd Pobl a Gwaith – Ged McHugh

Rwy'n ysgrifennu hyn ym mis Mai 2022. Mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn ddigynsail, yn drasig i rai. Drwy gydol y cyfnod hwn, mae Pobl a Gwaith wedi parhau i weithio er lles pobl y Rhondda ac ar draws Cymru, er bod cyswllt wyneb yn wyneb wedi bod yn gyfyngedig, gyda mwy o effaith ar feysydd gwaith penodol.  Mae'r staff wedi croesawu'r model gweithio gartref ac, erbyn hyn, rydym yn symud tuag at fodel gwaith hybrid i alluogi staff i weithredu a datblygu'n llawn. Erbyn hyn, rydym mewn sefyllfa well o lawer o ran y rhaglen frechu a chyfraddau heintio Covid a'r gobaith yw y bydd y gwelliant hwn yn parhau.

Mae'r sefyllfa economaidd yn ansicr, ond yn arbennig o drafferthus, gyda chwyddiant 10 y cant yn bosibl, biliau tanwydd yn saethu i fyny a thwf isel yn yr economi. Bydd hyn yn effeithio'n arbennig ar bobl y mae eu biliau bwyd a gwres yn gyfran uwch o'u cyllidebau aelwyd. Rhaid cydnabod y bydd canlyniadau o ran busnesau'n methu, diweithdra ac yn arbennig y cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael, yn enwedig i bobl ifanc.

Roedd y rhan fwyaf o'r gwaith a wnaed yn 2021 wedi'i lywio gan y cyfyngiadau angenrheidiol i reoli pandemig COVID-19. Gorfododd y cyfyngiadau ffyrdd newydd o weithio ac mae Pobl a Gwaith wedi parhau i addasu. Mae rhai newidiadau'n barhaol ac, yn 2021, symudodd Pobl a Gwaith i swyddfa lai o lawer yng Nghaerdydd, yn yr un adeilad, gan adlewyrchu'r disgwyliad y bydd staff yn parhau i weithio gartref am lawer o'r wythnos. Mae cynnal cyfarfodydd a chyfweliadau drwy lwyfannau ar-lein wedi dod yn arferol ac, er y collir rhywbeth drwy beidio â chyfarfod wyneb yn wyneb, mae'r arbedion ariannol a llygredd o beidio â theithio cymaint yn ddigon pwysig i barhau i weithio fel hyn.

Roedd llawer mwy o effaith ar waith prosiect na'n gwaith ymchwil a gwerthuso oherwydd ei fod yn ymwneud â dod â phobl ynghyd ond, drwy gydol y pandemig, mae tîm y Rhondda, partneriaeth Llechi, Glo a Chefn Gwlad a Talwrn wedi gweithio'n galed iawn i wneud iawn am y cyfyngiadau ar waith wyneb yn wyneb. Mae cyfarfodydd ar-lein wedi meithrin perthnasoedd ac yn y Rhondda, mae'r tîm wedi defnyddio atebion digidol i ynysigrwydd cymdeithasol a chynnig cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau tîm a grŵp yn yr awyr agored fel rygbi a phêl-droed cerdded, grwpiau cerdded a rhedeg a gwaith 'Llethrau Iach' yn yr awyr agored.

Mae Pobl a Gwaith yn cydnabod bod cyflogaeth yn ffocws allweddol o ran gwella cyfleoedd bywyd pobl. Mae addysg, hyfforddiant a chymorth i bobl ymuno â'r farchnad lafur a sicrhau swyddi'n elfennau allweddol o'n gwaith. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae prosiectau wedi'u datblygu sydd wedi'u cynllunio a'u gweithredu gan bobl y Rhondda a bydd yr arloesedd hwn dan arweiniad lleol yn elfen allweddol o'n ffordd o weithio yn y dyfodol.

Yn ariannol, mae Pobl a Gwaith mewn sefyllfa foddhaol ar hyn o bryd, gyda digon o ffynonellau cyllid a chontractau ymchwil wedi'u sicrhau ar gyfer y tymor byr. Rhaid aros i weld sut y gallai'r dirwedd gyllido newid. At hynny, mae angen i Pobl a Gwaith weithio ar ei rôl ddylanwadu, wrth ddatblygu perthnasoedd â sefydliadau eraill i gyfrannu at ddeall yr hyn sydd ei angen a'r hyn sy'n gweithio, o gofio ei brofiad hir.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut y mae Pobl a Gwaith yn canolbwyntio ar fodelau cynaliadwy o gymorth cymunedol, gan edrych ar annog arweinyddiaeth gymunedol ac ar sut y gall cymunedau gyfrannu at feithrin a chynnal yr economi leol a diogelu a choleddu'r amgylchedd.

# Cyflawniadau a pherfformiad

## Gwaith yn y Rhondda

Mae Pobl a Gwaith yn gweithio gyda phobl yn y Rhondda i ddatblygu ffordd newydd o weithio sy'n canolbwyntio ar nodi a chefnogi arweinyddiaeth yn y gymuned a helpu arweinwyr cymunedol i weithio gyda'r bobl o'u cwmpas. Mae'r dull gweithredu'n defnyddio cysyniad o 'fod ochr yn ochr': pobl leol yn gweithio gyda'i gilydd ac mewn cydweithrediad â'i gilydd. Nid yw'r gwaith yn cael ei wneud gan bobl ag arbenigedd yn y meysydd angen. Yn hytrach, caiff ei arwain gan y bobl sy'n gallu ffurfio perthnasoedd effeithiol a chefnogol â phobl eraill yn eu cymuned, a'u cysylltu â rhwydweithiau a gwybodaeth sy'n helpu.

Rôl Pobl a Gwaith yw cefnogi arweinwyr cymunedol gyda swyddi (pan fo'n briodol), hyfforddiant, rhwydweithiau da, amser a chyd-destun i weithio ynddo. Drwy gydol 2021, roeddem yn canolbwyntio ar feithrin capasiti arweinyddiaeth drwy hyfforddeiaethau, lleoliadau gwaith a rhaglenni peilot, wrth baratoi i ddatblygu rhaglen newydd pum mlynedd – Cenhedlaeth Rhondda. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyflogi 10 o bobl leol mewn rolau arweinyddiaeth, gan gynnwys hyfforddeion a gefnogir gan Sefydliad Rank a rhaglen Kickstart yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Roedd y rhain yn bobl ifanc yr oedd eu cyfleoedd i ymuno â'r farchnad lafur wedi'u gohirio neu eu cyfyngu gan y pandemig, ac roeddent naill ai'n ddi-waith neu wedi'u tangyflogi'n sylweddol. Rhoddwyd cyfleoedd hyfforddiant i naw ohonynt, tri am flwyddyn a chwech drwy leoliadau chwe mis y rhaglen Kickstart. Cwblhaodd Tomas Jenkins ei hyfforddeiaeth am flwyddyn a chafodd ei gadw ymlaen i ddarparu'r prosiect Golau Gwyrdd, yr oedd wedi bod yn rhan o'i ddatblygu. Symudodd Rhian Edwards ymlaen i rôl leol werthfawr i gyflogwr arall

ar ôl ei hyfforddeiaeth am flwyddyn, ond gadawodd waddol drwy gynllunio'r rhaglen ‘Darllen Rhondda’ i gefnogi teuluoedd i helpu llythrennedd eu plant.




Llun: *Michael Goodwin, hyfforddai RAP, Ethan Jones, arweinydd Rhondda Digidol a Tomas Jenkins, arweinydd Golau Gwyrdd.*

Mae’r holl bobl ifanc hyn yn dod o’r Rhondda ac wedi dod â’u profiadau a’u syniadau i ddatblygu Cenhedlaeth Rhondda. Bydd y fframwaith hwn yn adeiladu ar gryfderau’r Rhondda ac mae’n canolbwyntio ar gyflogaeth a sgiliau, addysg a dysgu, iechyd a llesiant a diogelu’r amgylchedd.

**PIAS**

Cafodd y pandemig effaith fawr ar y fenter gymdeithasol PIAS, sy’n ailwerthu dillad a chyfarpar chwaraeon a roddir, gan iddi golli ei safleoedd gwerthu a’i mannau casglu, a gostyngodd ei hincwm gwerthiant o fwy nag £11,500 yn 2019 i lai na £2,000 yn 2021.  Fodd bynnag, roedd Natasha Burnell, rheolwr PIAS, yn gallu sicrhau rhywfaint o gyllid o’r Loteri Cod Post a sicrhaodd y gallai’r gweithgareddau ffitrwydd a llesiant y mae PIAS yn eu hariannu barhau i gael eu darparu er gwaethaf colli’r incwm. Erbyn hyn, mae PIAS yn gweithio gyda mwy na 100 o bobl yr wythnos o grwpiau cerdded i oedolion i weithgareddau ffitrwydd ar ôl ysgol ac mae’n cynnal gweithgareddau grŵp yn ystod gwyliau ysgol.

Mae PIAS eisoes wedi dargyfeirio mwy na 12,000 o eitemau o safleoedd tirlenwi. Gan adeiladu ar ei gwaith cynaliadwyedd, mae’n defnyddio cerbyd

trydan i gludo pobl i weithgareddau a, chyda chymorth gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, talodd am waith gosod man gwefru mewn maes parcio canolfan hamdden yn y Rhondda. Mae PIAS bellach yn cefnogi Cwmni Buddiannau Cymunedol newydd ei sefydlu, sef Y Siop Fach Sero, sydd wedi cymryd adeilad y llyfrgell yng Nglynrhedynog ar brydles gan yr awdurdod lleol er mwyn agor siop ddiwastraff. Nod PIAS yw datblygu hyb cynaliadwyedd yn ogystal â'r Siop Fach Sero a fydd yn cynnwys safle manwerthu ar gyfer dillad a chyfarpar chwaraeon.

Mae Natasha hefyd wedi gweithio gyda phartneriaid yn y Rhondda ar gychwyn Llyfrgell Pethau Benthyg, lle y gall pobl fenthyg offer a chyfarpar, a Chaffi Atgyweirio.

**Gwe Rhondda**

Roedd y rhaglen Gwe Rhondda (2021-2022) yn canolbwyntio ar gynhwysiant digidol ac mae wedi arwain at raglen dair blynedd newydd, sef Rhondda Digidol. Mae Ethan Jones, a ddechreuodd gyda Pobl a Gwaith yn 2020 fel arweinydd cymunedol dan hyfforddiant, wedi datblygu clybiau codio ar draws y Rhondda ac mae hefyd yn mynd i'r afael ag allgáu digidol. Hyd yn hyn, mae'r prosiect cynhwysiant digidol wedi gweithio gyda mwy na 500 o bobl, gan gynnwys 20 grŵp mewn 15 lleoliad yn y Rhondda. Gan gymryd ei fodel o PIAS, nod prosiect PIAT (Play it Again Tech), a gefnogir gan raglen Time to Shine Sefydliad Rank, yw helpu pobl nad oes ganddynt fynediad at gyfarpar TG trwy ailwampio a benthyca neu ddosbarthu cyfarpar TG a roddir, sef dull a brofwyd gan gynllun peilot sy'n cael ei ddatblygu yn 2022. Ddechrau 2022, sicrhawyd cyllid am 3 blynedd arall gan Sefydliad Moondance ar gyfer Rhondda Digidol.

Mae Pobl a Gwaith bellach yn un o dri aelod o'r Rhondda o rwydwaith o ganolfannau ar-lein y DU a ddatblygwyd gan Sefydliad Good Things. Mae hyn

yn golygu ein bod yn rhan o’r Banc Data Cenedlaethol, sydd wedi cyflenwi cardiau data am ddim i helpu i fynd i’r afael â thlodi data. Mae Pobl a Gwaith yn cydweithredu â sefydliadau eraill sy’n canolbwyntio ar gefnogi pobl sy’n wynebu heriau’r argyfwng costau byw i ddosbarthu’r cardiau data.

Ddechrau 2022, cynhaliwyd Digifest am y trydydd tro mewn partneriaeth â Choleg y Cymoedd yn Llwynypia. Daeth mwy na 300 o blant a phobl ifanc i gael profiad o weithdai technoleg ddigidol a gyflwynwyd gan dair prifysgol leol, colegau a busnesau lleol.



*Ethan Jones gyda disgyblion ysgol gynradd yn Digifest 2022.*

**Golau Gwyrdd**

Datblygodd y rhaglen Golau Gwyrdd yn ystod y pandemig i helpu pobl a oedd wedi colli eu swyddi, neu nad oeddent yn gweld ffordd allan o ddiweithdra neu waith gwael. Mae’n cynnig cymorth cyflogaeth personol iawn drwy helpu pobl i feddwl drwy eu hopsiynau, llunio CV, dysgu am wneud cais ar-lein, cael mynediad at gymwysterau a gweld pa swyddi lleol sydd ar gael - [(3) Y Prosiect Golau Gwyrdd | Facebook.]  Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae tîm y prosiect (James Watts-Rees, Tomas Jenkins a’r hyfforddai RAP Michael Goodwin) wedi gweithio gyda thros 100 o bobl, ac yn ddwys gyda 70 ohonynt. Darparodd cyllid gan

Confused.Com gyllideb ar gyfer gweithgareddau cymorth a galluogodd Pobl a Gwaith i gadw Tomas pan ddaeth ei hyfforddeiaeth (a gefnogwyd gan Sefydliad Rank) i ben.  Mae'r rhan fwyaf o'r rhai a gefnogwyd wedi dod o hyd i gyflogaeth ac mae eraill wedi'u cefnogi i ennill cymwysterau newydd.

## Gweithio gyda'r Sector Gwirfoddol yng Nghymru

### Llechi, Glo a Chefn Gwlad

Mae Pobl a Gwaith wedi parhau i gydlynu Llechi, Glo a Chefn Gwlad, sy'n cynnwys partneriaeth naw sefydliad - Cwmni Bro Ffestiniog, Partneriaeth Ogwen a Siop Griffiths o ddyffrynnoedd llechi Gogledd Cymru; Tir Coed, Tir Dewi a Credu sy'n gweithio gyda choetir a rheoli tir, ffermwyr a gofalwyr yn y drefn honno; a Phartneriaeth Adfywio Ynysybwl, DOVE a phrosiect Pobl a Gwaith yn y Rhondda yn yr hen faes glo yn Ne Cymru. Mae'r bartneriaeth yn canolbwyntio ar rôl y gymuned wrth gefnogi a thyfu'r economi sylfaenol neu'r economi leol iawn ac ariennir pob partner i gyflogi arweinydd o'i gymuned am flwyddyn i'w helpu  i ddatblygu'r ffordd y mae'r gymuned yn cael ei chynnwys, a ailadroddir dros dair blynedd.

Mae'r gwerthusiad allanol gan y Ganolfan Cynllunio Iaith wedi nodi effeithiolrwydd y gwaith partneriaeth sydd wedi'i ddatblygu:

*Os mai ymffurfio'n bartneriaeth wirioneddol gynhwysfawr, gyfartal a chydweithredol oedd camp sylfaenol y flwyddyn gyntaf bu cynnal y berthynas gyd-greadigol i'r ail flwyddyn yn llawn cymaint o gamp.*

Hefyd, nododd y gwerthuswyr yr effaith ar y naw arweinydd cymunedol a gyflogwyd am y flwyddyn:

*Megis ym mlwyddyn gyntaf y prosiect, bu'r deuddeg mis o brofiad gyda Llechi, Glo a Chefn Gwlad yn brofiad o drawsnewid i'r holl arweinwyr cymunedol dan hyfforddiant.*

Gweithiodd y naw arweinydd cymunedol a gyflogwyd drwy'r prosiect gyda mwy na 1,000 o bobl yn 2021. Nododd y gwerthusiad effaith ar y cymunedau y mae’r partneriaid yn gweithio gyda nhw:

*Yn ddi-os mi fu ail flwyddyn prosiect Llechi, Glo a Chefn Gwlad yn gyfnod o ddyfnhau ac ehangu ar yr hyn y mae’r cymunedau a’u pobl wedi profi a dysgu; yn wir, ddysgu trwy brofi.*

Er bod pob partner yn wahanol, mae’r grŵp wedi gwerthfawrogi’r pethau cyffredin ac mae effeithiolrwydd y rhwydwaith wrth hyrwyddo dysgu a chymorth ar y cyd wedi bod yn arwyddocaol. Mae’r gwerthuswyr yn gweithio gyda’r bartneriaeth i helpu i gofnodi gwersi’r prosiect cyfan ac i edrych ar y ffordd y lledaenir hyn:

*Wrth galon prosiect Llechi, Glo a Chefn Gwlad y mae’r uchelgais o newid. Mae’r newid a gynlluniwyd ar ei gyfer o fewn y Ddamcaniaeth Newid yn un radical. Nid newid dros dro mohono ond newid parhaol. Nid tymor byr ond hir dymor. Newid sylfaenol. Newid sy’n gwneud gwahaniaeth go iawn i unigolion, i gymunedau ac i dirwedd Datblygu Cymunedol drwy Gymru gyfan.*
(Cymerwyd y dyfyniadau o’r adroddiad Llechi, Glo a Chefn Gwlad: Beth ydym wedi ei ddysgu yn yr ail flwyddyn? *What have we learnt in the second year?)*

Yn 2021, roedd y grŵp yn gallu cyfarfod wyneb yn wyneb am y tro cyntaf (dechreuodd y prosiect ar ddechrau 2020) ac roedd ymweliad â’r partneriaid yn Ne Cymru yn brofiad effeithiol a chadarnhaol i bawb. Ymwelodd y grŵp â’r partneriaid yng Ngogledd Cymru yng ngwanwyn 2022.

***Talwrn***

Mae Talwrn yn bartneriaeth o arweinwyr sector gwirfoddol yng Nghymru a gynullir gan Pobl a Gwaith. Mae’n grŵp anffurfiol ac, yn ystod y pandemig,

symudodd i gynnal cyfarfodydd ar-lein ac wyth oedd y presenoldeb cyfartalog. Mae'r cyfarfodydd yn gyfle i rannu gwersi a syniadau, cefnogaeth a her gan gymheiriaid, a chydweithio. Mae'r aelodau'n cynnwys pobl sy'n gweithio ledled Cymru, pobl sy'n gweithio'n sirol neu'n rhanbarthol ac eraill sy'n gweithio mewn un gymuned ac mae'r cymysgedd hwn, ar y cyd â'r ffaith bod y math o waith a wneir yn amrywio'n eang, yn cynnig dirnadaethau gwerthfawr i aelodau sy'n llywio eu gwaith.

## Gwerthuso ac Ymchwil

Mae Pobl a Gwaith yn dylanwadu ar bolisi ac arfer, ac yn llywio hynny, drwy ei waith gyda chymunedau a thrwy ddarparu cymorth gwerthuso ac ymchwil i'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol yng Nghymru. Mae'r swyddogaeth olaf hon hefyd yn darparu ffrwd incwm annibynnol sy'n ategu ein gwaith prosiect a'n cyllid.

Rydym yn canolbwyntio ar waith ansoddol a meintiol sy'n cyflawni amcanion cyffredinol yr elusen ac rydym wedi ymrwymo i astudiaethau sy'n galluogi cleientiaid i gefnogi pobl mor effeithiol â phosibl. Mae ein gwaith diweddar wedi helpu i lywio polisi a darpariaeth gwasanaeth i bobl ag anghenion ychwanegol, y rhai sy'n ceisio cyflogaeth well, a sefydliadau gwirfoddol sydd am ddatblygu eu rolau.

### Gwerthuso ac ymchwil ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru

Rydym yn parhau i ddarparu cymorth gwerthuso i'r rhaglen Buddsoddi'n Lleol sy'n cael ei chynnal gan yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau a'i hariannu

gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Gan ddechrau yn 2016, rydym yn gweithio dros 10 mlynedd gyda'r Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau i gefnogi'r 13 cymuned yn y rhaglen i gofnodi gwersi a deall effeithiolrwydd y cymorth a'r buddsoddiad (miliwn o bunnau'r gymuned) a gyrchir ganddynt. Rydym wedi bod yn edrych ar effaith y pandemig ar y cymunedau yn ystod 2021.

Yn 2021, gwnaethom gyhoeddi adroddiad o ymchwil a gomisiynwyd gan y prosiect Llechi, Glo a Chefn Gwlad a'r Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau ar rôl mentrau cymunedol wrth fynd i'r afael ag effaith cyfnod clo cyntaf y pandemig, Ymateb cymunedol i covid-19 (squarespace.com). Cafodd y canfyddiadau eu trafod a'u rhannu yn Gofod3, cynhadledd ddigidol CGGC ynghylch cymunedau a Covid, a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi a gwnaethant lywio cyflwyniad yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau ar ymchwiliad gan y Senedd.

Rydym hefyd yn darparu cymorth gwerthuso i Gofal a Thrwsio Powys ac Age Cymru Powys ar gyfer eu prosiect Mamwlad (Mamwlad (ageuk.org.uk)  sy'n targedu cymorth i deuluoedd ffermio ym Mhowys.

Gwnaethom ddarparu cymorth gwerthuso i Age Cymru Gorllewin Morgannwg ar gyfer prosiect ynghylch cymorth yn y cartref i bobl hŷn a gwerthusiadau ac ymchwil ar gyfer - Interlink (y gymdeithas sefydliadau gwirfoddol yn Rhondda Cynon Taf): mae rhaglen Sicrhau Newid drwy Gyflogaeth (ACE) Newid Tyfu Byw yn canolbwyntio ar gefnogi pobl o gymunedau o gymunedau lleiafrifoedd ethnig i waith; a Theatr Spectacle yn y Rhondda.

Mae Pobl a Gwaith wedi cwblhau ymchwil yn ddiweddar i Addysg Oedolion Cymru ar y bobl sy'n ymgymryd ag addysg oedolion a'i heffaith arnynt, gan lywio

eu gwaith a'u heiriolaeth ynghylch ymchwiliad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd i'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

Ddiwedd 2021, comisiynwyd Pobl a Gwaith gan Rwydwaith Tlodi Bwyd Wrecsam drwy Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam i lywio'r Rhwydwaith ynghylch mentrau bwyd yn y gymuned yn Wrecsam, sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn a'r hyn sy'n hysbys am eu heffaith ar bobl; edrych ar sut y mae pethau wedi newid yn dilyn diwedd y pandemig a pha gynlluniau ar gyfer y dyfodol sydd gan grwpiau wrth i argyfwng costau byw newydd ddatblygu.

Mae Pobl a Gwaith hefyd wedi'i gomisiynu i werthuso prosiect Cronfa Adfywio Cymunedol yng Ngwynedd o'r enw 'Tîm o Amgylch y Person Ifanc', sy'n ceisio gwella gwaith partneriaeth rhwng asiantaethau gwahanol sy'n cefnogi pobl ifanc. Gwneir yr holl waith maes drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'r holl adroddiadau'n cael eu llunio yn Gymraeg yn gyntaf.

## Gweithio gyda'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru

Mae Pobl a Gwaith yn darparu gwerthusiadau o dair rhaglen ranbarthol a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a gynhelir gan awdurdodau lleol Cymru i helpu pobl sy'n gweithio neu i ddod o hyd i waith:

- Ar Ynys Môn, mae'r rhaglen Ehangu Gorwelion Môn yn targedu pobl sydd mewn gwaith sgiliau isel neu ansicr i adeiladu ar eu sgiliau a dod o hyd i waith gwell;
- Rhaglen gwrth-dlodi yw Sgiliau@Gweithle sy'n gweithio yng Nghaerdydd, Casnewydd a Sir Fynwy gyda phobl sydd mewn cyflogaeth ond â sgiliau isel, i'w helpu i symud ymlaen yn y gwaith;

- Mae’r rhaglen Siwrne i Waith yn gweithio i ddatblygu cyflogadwyedd pobl sy’n economaidd anweithgar a/neu sy’n ddi-waith yn y tymor hir yng Nghasnewydd, Caerdydd a Sir Fynwy.

At hynny, rydym wedi:

- cynnal adolygiad o wasanaethau niwroddatblygiadol yng Nghymru i Lywodraeth Cymru, sy’n amlinellu gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer datblygu gwasanaethau niwroddatblygiadol a’r system cymorth ehangach i bobl niwroamrywiol a’u teuluoedd yng Nghymru;
- parhau i weithio gydag Old Bell3, Prifysgol Caerdydd a DateB ar werthuso rhaglen Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) Llywodraeth Cymru sy’n cefnogi rhieni i gael mynediad at gyflogaeth;
- dechrau gweithio, eto gydag Old Bell3, Prifysgol Caerdydd, DateB ac IFF Research ar werthusiad o’r rhaglenni Cymunedau am Waith (CaW) a Cymunedau am Waith a Mwy (CaWaM) i Lywodraeth Cymru.

Mae’r gwerthusiadau o PaCE, CaW, CaWaM, Siwrne i Waith a Sgiliau@Gweithle, yn dod ar adeg hanfodol wrth i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ddatblygu eu cynlluniau ar gyfer rhaglenni cymorth cyflogaeth newydd wrth i Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd i Gymru ddod i ben. Bydd y gwerthusiadau’n helpu i dargedu gwaith lle y mae’n cael yr effaith fwyaf.

## Diogelu ein systemau at y dyfodol

Mae’r elusen wedi gweithio i leihau ei gorbenion cymaint â phosibl eleni. Mae’r tîm ymchwil, gan mwyaf, wedi parhau i weithio gartref a’r disgwyliad yw mai dim ond unwaith neu ddwywaith yr wythnos y byddant yn cyfarfod yn y swyddfa yn y dyfodol. Fel y nodwyd uchod, rydym, o ganlyniad i hynny, wedi symud ein prif swyddfa i ystafell lai o lawer yn yr un adeilad yn Butetown, gan leihau costau

rhent yn sylweddol. Rydym wedi cael gwared ar gostau llinell dir a band eang sefydlog drwy symud ein ffôn i system ar-lein a defnyddio dongl band eang y telir amdano'n fisol.

## Y camau nesaf

Mae gennym dîm o 8 arweinydd ifanc yn y Rhondda sydd wedi gweithio gyda Pobl a Gwaith i ddatblygu dull gweithredu Cenhedlaeth Rhondda. Dyma raglen waith arfaethedig yn y Rhondda dros y pum mlynedd nesaf sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth a sgiliau; iechyd a llesiant; a diogelu'r amgylchedd. Y cynllun yw datblygu gwaith ar bob un o'r themâu hyn, ond hefyd eu cysylltu i ddarparu dull gweithredu cyfannol fel bod gwaith ar ddatblygu sgiliau digidol yn cynnwys edrych ar gyfleoedd cyflogaeth; mae help i deuluoedd gefnogi eu plant i ddarllen yn gysylltiedig â gwella ffitrwydd a sefydlu grwpiau darllen i oedolion; ac mae cymorth menter gymdeithasol yn gysylltiedig ag achub y blaned.

Cyn 2022, roedd cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer: Rhondda Digidol i gefnogi cynhwysiant digidol a datblygu sgiliau TG dros y tair blynedd nesaf; rhaglen beilot am flwyddyn, sef Darllen Rhondda, i weithio gyda theuluoedd ar lythrennedd a llafaredd; rhaglen beilot am flwyddyn, sef PIAT, i ailwampio cyfarpar TG i bobl sydd wedi'u hynysu'n ddigidol. At hynny, sicrhaodd Pobl a Gwaith grant 'Goroesi' CGGC (gyda chyllid Llywodraeth Cymru) i'n helpu i adfer o rai o effeithiau'r pandemig. Mae hyn wedi ariannu swydd ein rheolwr prosiect a'n galluogi i ddatblygu strategaeth ariannu er mwyn sicrhau cyllid ar gyfer Cenhedlaeth Rhondda, gan gynnwys symud model PIAS i un sy'n canolbwyntio ar faterion amgylcheddol a chefnogi menter gymdeithasol a galluogi Golau Gwyrdd i ddatblygu ac adeiladu rhaglen ataliol sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o'r farchnad lafur ymhlith plant a phobl ifanc mewn ysgolion yn y Rhondda.

## Strwythur, llywodraethu a rheoli

Mae’r elusen yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac nid oes ganddo gyfalaf cyfrannau. Yr ymddiriedolwyr yw’r cyfarwyddwyr hefyd at ddiben cyfraith cwmni. Dyma’r rhai a oedd yn gwasanaethu yn ystod y flwyddyn a hyd at ddyddiad llofnodi datganiadau ariannol 2021:

| | |
|---|---|
| Christala Sophocleous | Phil Watkins (Trysorydd) |
| Gordon Davies | Jan Huyton (Is-gadeirydd) |
| Ged McHugh (Cadeirydd) | Gareth Lewis |
| Mary-Ann McKibben | David Rees |

### Staff

Dr Duncan Holtom yw pennaeth y tîm ymchwil gan weithio gyda Rhodri Bowen, uwch-ymchwilydd, a Heather Pells.

James Hall yw’r rheolwr gweithrediadau sy’n gofalu am y systemau TG, y swyddfeydd a’r cyfarpar. Mae hefyd yn arwain gwaith partneriaeth, ac yn rheoli’r rhaglenni PIAT a Rhondda Digidol a'r arweinydd datblygu cymunedol, James Watts-Rees. James Watts-Rees yw'r arweinydd datblygu cymunedol ac mae'n rheoli’r rhaglen Golau Gywrdd Light gyda Tomas Jenkins.

Mae Natasha Burnell yn arwain gwaith menter gymdeithasol a chynaliadwyedd amgylcheddol ac yn rheoli Natasha Owen, sy’n arwain Darllen Rhondda.

Yn y 12 mis diwethaf, mae Pobl a Gwaith wedi cyflogi 10 hyfforddai: Rhian Edwards ac yna Justin George drwy raglen 12 mis Time to Shine Sefydliad

Rank; Tomas Jenkins ac yna Michael Goodwin drwy gynllun GAP 12 mis Sefydliad Rank; Morgan Rhoderick, Dominic Turner, Abigail Parry, Caelan Bradley, Antony Jenkins a Justin George (a symudodd ymlaen wedyn i Time to Shine) drwy raglen 6 mis KickStart yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Cyflogir Dr Sarah Lloyd-Jones fel Cyfarwyddwr â chyfrifoldebau rheoli cyffredinol i'r elusen, yn gweithio gyda'r ymddiriedolwyr. Mae Sarah hefyd yn arwain y prosiect Llechi, Glo a Chefn Gwlad a Talwrn ac yn rhan o rywfaint o'r gwaith ymchwil a gwerthuso.

Ann Churcher yw'r gweinyddwr.